**Fferm Wynt Tirgwynt**

**Cyfarfod Cyntaf y Grŵp Cyswllt Cymunedol**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| 1 | Agorodd MJD y cyfarfod a chroesawu'r mynychwyr. |
| 2 | Gwnaed y cyflwyniadau gyda phawb yn nodi'r corff yr oeddynt yn ei gynrychioli a'u rôl ynddo. |
| 3 | Trefnodd MJD y cyfarfod o gwmpas cyflwyniad power point sydd ynghlwm wrth y cofnodion. |
| 4 | Esboniodd MJD fod gofyniad adran 106 ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio y fferm wynt i sefydlu pwyllgor cyswllt cymunedol er mwyn lledaenu gwybodaeth wrth adeiladu'r fferm wynt. Dyma oedd pwrpas y cyfarfod. Eglurodd TM ymhellach beth oedd cyd-destun cytundeb adran 106 ac roedd testun y rhaglen berthnasol i'w weld ar y sgrin i bawb ei weld. |
| 5 | Gofynnodd MJD i'r mynychwyr ethol cadeirydd ac is-gadeirydd. Cafwyd trafodaeth, a'r canlyniad oedd y penderfynwyd na theimlai'r un o'r mynychwyr eu bod yn adnabod ei gilydd na'r cyfrifoldebau yn ddigon da i ysgwyddo unrhyw un o'r swyddi hyn. Gofynnwyd i MJD barhau yn Gadeirydd hyd nes y ceid hysbysiad pellach. Cytunodd i wneud hyn. Ni chafodd is-gadeirydd ei ethol. |
| 6 | Rhoddodd MJD y wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am statws y prosiect gan roi dyddiadau dechrau'r adeiladu, y dyddiadau arfaethedig y byddai'r tyrbinau yn cyrraedd a'r dyddiad dechrau creu ynni. |
| 7 | Esboniodd MJD a TM gyfyngiadau amgylcheddol yr adeiladu yn enwedig o ran y gylfinir a'r tymor bridio adar. |
| 8 | Cyflwynodd MJD sleid oedd yn dangos trefniadaeth o ran cyfrifoldebau a chysylltiadau'r adeiladu. |
| 9 | Dangosodd MJD y llwybrau teithio ar gyfer y llwythi annormal a'r traffig adeiladu. Holodd Mrs Davies a fyddai'r confois annormal yn teithio yn araf iawn ai peidio. Eglurodd MJD y byddai'r cerbydau hyn yn teithio ar gyflymder traffig normal ar y cefnffyrdd ac ond yn arafu ar gorneli anodd iawn neu ar riwiau ar briffyrdd y sir. Eglurodd MJD hefyd y byddai'r cerbydau yn cael eu hebrwng yn briodol gan yr heddlu. |
| 10 | Cododd trafodaeth bellach ynghylch pwysau'r llwythi a'r effaith bosibl ar lwybrau trafnidiaeth. Eglurodd MJD y bydd echel llwythi'r cerbydau annormal anwahanadwy yn llai na'r uchafswm a ganiateir gan reoliadau'r Priffyrdd. |
| 11 | Eglurodd MJD y bydd arolygon yn cael eu gwneud ar Stryd Fawr y Trallwng i weld a oes unrhyw fannau gwan (voids) o dan y briffordd a allai gael eu gwaethygu gan y cerbydau llwythi annormal a fyddai'n mynd heibio gerllaw. Bydd y gwaith arolwg hwn yn cael ei wneud cyn y teithiau cludo annormal a'i wneud i foddhad yr Awdurdodau Cynllunio a Phriffyrdd. |
| 12 | Cafwyd peth trafodaeth am lefel isaf posibl y traffig adeiladu oherwydd y safle prosesu concrid ar y safle a defnyddio carreg o chwarel ger y safle ac o byllau benthyg y safle. |
| 13 | Cyflwynodd MJD amlinelliad byr o'r mecanwaith ar gyfer dosbarthu'r gronfa gymunedol. |
| 14 | Roedd gan amrywiol fynychwyr brofiad blaenorol o weithio gyda chyllid fel hyn a phob un wedi mynegi syniadau gwahanol ynghylch sut orau i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddosbarthu'n effeithiol ac yn deg. |
| 15 | Cytunwyd y byddai angen cyfrwng ar wahân i nodi sut orau i sefydlu a gweinyddu'r gronfa. Esboniodd TM mai mater i berchennog y prosiect oedd mynd â hyn yn ei flaen, ond ar hyn o bryd efallai ei bod yn ddigon i gyfleu'r neges (gan berchennog y prosiect) y byddai un yn cael ei sefydlu yn ôl yr addewid a wnaed. |
| 16 | Roedd Mrs Davies yn bryderus rhag ofn nad oedd pob un o'r cymunedau yr effeithir arnynt wedi cael gwahoddiad. Esboniodd TM fod y cymunedau yr effeithir arnynt (a rhai oedd â diddordeb) wedi'u henwi i Wind Prospect gan unigolion oedd wedi bod yn rhan o ddatblygu Fferm Wynt Tirgwynt dros nifer o flynyddoedd. Gwahoddwyd sawl corff a mudiad – rhai oedd wedi dewis dod. Cytunodd i ysgrifennu at MJD ar y mater hwn. |
| 17 | Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Ionawr 2016 gan y byddai'r gwaith wedi hen ddechrau erbyn hynny. |
| | Daeth y cyfarfod i ben am 9PM |